| | Hawl | Cydymffurfio (dewiswch) | Sylwadau'r awdurdod |
|---|---|---|---|
| 1 | Hawl ymuno â llyfrgelloedd yng Nghymru am ddim ac yn agored i bawb | Cyflawni'n llawn | Mae Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhad ac am ddim i'r holl drigolion, myfyrwyr a'r rhai sy'n gweithio yn ardal yr Awdurdod Lleol. |
| 2 | Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu. | Cyflawni'n llawn | Mae holl staff Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol wedi'u hyfforddi'n llawn a'u cefnogi gyda'u datblygiad proffesiynol parhaus. Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol yn gweithredu cyllideb hyfforddi bwrpasol sy'n galluogi gweithwyr i fynychu cyrsiau hyfforddi a digwyddiadau ymwybyddiaeth gwybodaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol sydd wedi'u nodi a'u targedu sy'n gysylltiedig â'u gwaith. Yn ystod mis Mawrth 2020, roedd disgwyl i holl staff y llyfrgell, gan gynnwys staff cyflenwi llyfrgell (cyflenwad staff o 100%), fynychu sesiynau Ymwybyddiaeth Diogelu Haen 2 sydd wedi'u gohirio wedi hynny oherwydd pandemig COVID-19. Mae 6 safle wedi'u nodi fel derbynfeydd safon uwch ac mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn parhau i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Rheoliadau'r Gymraeg. Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cefnogi staff parhaol a staff cyflenwi'r llyfrgell sy'n dymuno cwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb Iaith Arwyddion Prydain neu ddysgu Cymraeg. Mae'r holl staff wedi cwblhau sawl cwrs cyflenwol, gyda rhai wedi'u darparu ar-lein ac eraill mewn amrywiaeth o leoliadau gyda sawl mewn perthynas â hyfforddiant rheoli adeiladau, diweddariad ar gyfer codi a chario, ac Ymwybyddiaeth Diogelwch Tân. Yn ystod mis Ionawr/Chwefror a mis Mawrth 2020, roedd staff y llyfrgell wedi cwblhau hyfforddiant Gwasanaeth Rheoli Llyfrgelloedd SirsiDynix yn barod ar gyfer gweithredu cynnyrch Gwasanaeth Rheoli Llyfrgelloedd Cymru gyfan. Mae'r gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cefnogi datblygiad staff trwy gydol llwybr gyrfa sy'n cynnwys: Rhaglenni sefydlu ar gyfer y Llyfrgelloedd ac ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Gwasanaethau i Gwsmeriaid, ILM lefel 3-5 mewn Rheoli, cyrsiau dysgu o bell yn Llandrillo a graddau ILS BA a Meistr gan Brifysgol Aberystwyth. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi presenoldeb gweithwyr mewn amrywiaeth o gyrsiau sy'n cael eu darparu gan yr Awdurdod Lleol, partneriaid Llyfrgelloedd rhanbarthol a MALD. Mae staff proffesiynol yn cael eu cefnogi a'u hannog i ail-ddilysu eu Siarteriaeth yn barhaus. Yn ystod mis Mai 2019, roedd y gwasanaeth llyfrgelloedd wedi cynnal Arolwg Oedolion y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer trigolion. Mae canran y cwsmeriaid sy'n oedolion sy'n credu bod ein gofal cwsmer yn 'dda iawn' a 'da' yn parhau i fod yn 99% (99% yn 2017). Yn ystod mis Gorffennaf 2018, roedd y gwasanaeth llyfrgelloedd wedi cynnal Arolwg Plant ac Oedolion Ifanc y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer trigolion. Y sgôr cyfartalog allan o ddeg a ddyfarnwyd gan ddefnyddwyr 7-16 oed ar gyfer y llyfrgell y maen nhw'n ei defnyddio yw 9.4, cynnydd o 0.1 o arolwg mis Mai 2016. |

| | | |
|---|---|---|
| **3** Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad i ystod o weithgareddau ac adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau er mwyn cefnogi dysgu, lles personol a datblygiad, cyfranogiad cymunedol, a diwylliant a hamdden. | Cyflawni'n llawn | Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio'n agos gyda chyrff lleol a grwpiau cymunedol i gynnig mynediad i gwsmeriaid at amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, gweithgareddau a chynlluniau addysg gydol oes gyda chymorth. |
| **4** Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau priodol, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth i unigolion a grwpiau gydag anghenion arbennig. | Cyflawni'n llawn | Mae gan yr holl lyfrgelloedd desgiau sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn ac ystod o eitemau ymylol i helpu gyda materion anableddau gwahanol, gan gynnwys llygod pêl trac a bysellfyrddau mawr. Mae gan bob cyfrifiadur dechnoleg feddalwedd addasol wedi'i gosod gan gynnwys darllenwyr sgrin a chwyddo. Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol yn darparu dolen sain ar gyfer defnyddwyr â nam ar eu clyw, cynllun llyfrgell sydd wedi'i gynllunio i ddarparu ar gyfer defnyddio cadeiriau olwyn, arwyddion Braille mewnol mewn 3 o'r 4 llyfrgell fwyaf, arwyddion Braille allanol ym mhob lleoliad. Yn ogystal, mae Llyfrgelloedd Caerffili yn darparu 'Map i Bawb' yng Nghaerffili, sy'n rhoi map aml-synhwyrol o leoliadau gwasanaethau yn yr adeilad. Mae cymhorthion darllen dyslecsig ar ffurf troshaenau lliw a phren mesur lliw ar gael i'w benthyg neu i'w defnyddio ym mhob llyfrgell. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn gweithredu darpariaeth bwrpasol ar gyfer Pobl sy'n Gaeth i'r Tŷ ar draws y Fwrdeistref Sirol sy'n cael ei ddarparu gan ddau aelod o staff amser llawn a cherbydau dosbarthu. Mae pob un o'r 18 Llyfrgell yn cynnig mynediad i drigolion at adnoddau dementia arbenigol gan gynnwys casgliadau o 'Lluniau i'w Rhannu'. Mae pob Llyfrgell sefydlog yn darparu mynediad i ofalyddion o drigolion â dementia at fag cofion â thema llawn adnoddau a chymorth, ac yn 2019, roedd pob llyfrgell wedi cael tystysgrif 'Gwobr Dementia-gyfeillgar'. Mae gan bob un o'r 18 llyfrgell gasgliadau unigryw o lyfrau ar gyfer cymryd rhan mewn cynllun Llyfrau ar bresgripsiwn Cymru, a chynlluniau Darllen yn Well a Darllen yn Well ar gyfer Iechyd Meddwl. Mae sawl safle yn cynnal grwpiau cymorth Awdioleg i gwsmeriaid sydd â nam ar y clyw ac mae pob safle yn cynnig cynhyrchion misglwyf fel rhan o gynllun Urddas y Misglwyf y Cyngor. Mae'r llyfrgell hefyd yn cynnig amrywiaeth o fformatau i gwsmeriaid, fel print bras, llyfrau sain a chynnwys e-ddigidol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mannau diogel, deiniadol a hygyrch sydd ag oriau addas wedi'u staffio. | Cyflawni'n llawn | Mae'r awdurdod yn darparu arwynebedd llawr sy'n hygyrch i'r cyhoedd o 29m2 i bob 1,000 o drigolion. Mae 18 safle sefydlog Bwrdeistref Sirol Caerffili yn hygyrch yn unol â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Yn dilyn buddsoddiad sylweddol yn adeiladau Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol, mae pob safle yn addas at y diben ac mae rhaglen cynnal a chadw ac uwchraddio dan reolaeth yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â thîm cyfleusterau'r Cyngor. Yn flynyddol, mae eiddo targedig yn cael ei ailaddurno a/neu ei wella ymhellach yn unol â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd i gynnig adeiladau cyhoeddus deniadol a chroesawgar i drigolion. Mae canlyniadau Arolwg Oedolion y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a gafodd ei gynnal yn 2019 yn dangos bod 99% o gwsmeriaid yn teimlo bod y "llyfrgell yn ddiogel, pleserus a chynhwysol' a bod 98% yn teimlo bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. |
| 6 | Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn darparu mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein 24 awr y dydd. | Cyflawni'n llawn | Mae'r llyfrau ar gael am ddim i'r holl drigolion eu benthyg. Nid yw plant neu bobl dan 16 oed yn talu ffioedd dyledus ar gyfer dychwelyd llyfrau'n hwyr ac mae amrywiaeth o ddeunyddiau eraill y mae modd eu benthyg gan bartneriaid B4U. Hefyd, mae 18 Llyfrgell y Fwrdeistref Sirol yn cynnig mynediad am ddim at gyfleusterau'r we a chysylltiad diwifr. Mae tudalennau'r llyfrgell ar wefan y Cyngor wedi'u harwyddo'n glir ac mae modd dod o hyd iddyn nhw yma: https://www.caerffili.gov.uk/llyfrgelloedd a https://www.caerphilly.gov.uk/libraries |
| 7 | Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu defnydd am ddim o'r Rhyngrwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys diwifr. | Cyflawni'n llawn | Mae pob safle yn darparu cyfleusterau cyfrifiadur yn rhad ac am ddim i drigolion ac ymwelwyr gyrchu adnoddau ar-lein a'r we. Mae mynediad Wi-Fi ar gael yn yr 18 man gwasanaeth sefydlog. Mae'r Fwrdeistref Sirol yn darparu mynediad i gwsmeriaid at 250 terfynell we ar hyd rhwydwaith gwefannau'r Awdurdod Lleol. |
| 8 | Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad i wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg. | Cyflawni'n llawn | Rydyn ni'n parhau i ymrwymo i brynu adnoddau Cymraeg ar gyfer oedolion, plant a dysgwyr Cymraeg. Rydyn ni'n cyd-weithio â sawl partner, fel grwpiau darllen Cymraeg, er mwyn sicrhau bod ein stoc Cymraeg ar gael mewn nifer o fformatau - llyfrau, llyfrau sain, CD Rom ac e-ddigidol. Mae'r rhan fwyaf o Staff y Llyfrgelloedd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg Rhagarweiniol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Cynyddodd benthyciadau o adnoddau Cymraeg yn 2018-19 i 15,182, sef gwelliant o 32% ar y cyfanswm a gyflawnwyd yn 2017-18. KP LOOK AT FIGURES |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rhannu eu catalogau ac yn hwyluso mynediad i adnoddau llyfrgelloedd Cymreig. | Cyflawni'n llawn | Mae gan gatalog gwasanaeth Llyfrgelloedd Caerffili ddata catalog cyfoethog sy'n cynnwys delweddau a chrynodebau o'r stoc. Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cymryd rhan lawn yn y cynllun B4U rhanbarthol a'r ddarpariaeth catalog cenedlaethol ac sydd ar gael ar www.llyfrgell.cymru |
| 10 | Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, felly yn galluogi mwy o bobl i elw o'u gwasanaeth. | Cyflawni'n llawn | Mae defnyddio Twitter, Facebook a chyfryngau cymdeithasol eraill yn cael ei annog yn yr 18 safle sefydlog ymhlith yr holl staff rheng flaen. Mae cyllid yn cael ei glustnodi yn flynyddol ar gyfer marchnata a gweithgareddau hysbysebu ar draws rhwydwaith safleoedd Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol. Mae nifer o ddigwyddiadau proffil uchel yn ystod y flwyddyn, megis Her Darllen yr Haf a Chynllun Darllen Gyda'n Gilydd, yn cael eu cydlynu â thîm Cyfathrebu'r Cyngor i gael yr effaith fwyaf gyda chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill. Fodd bynnag, dylid nodi bod y cyllid sydd ar gael ar gyfer marchnata targedig ar gyfer digwyddiadau wedi'i leihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae effaith yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer allgymorth o'r fath yn cael ei flaenoriaethu'n bennaf ar gyfer grwpiau oedran allweddol gan gynnwys plant a thrigolion ifanc. Mae Gwasanaethau Llyfrgell yn parhau i gynnig apêl eang i gwsmeriaid a phobl sydd ddim yn gwsmeriaid, fel sydd wedi'i ddangos yn Arolwg Cartrefi 2017 y Cyngor, gyda 96% wedi ymateb eu bod yn fodlon iawn neu eithaf bodlon gyda darpariaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol. Adroddwyd bod Arolwg Cartrefi Corfforaethol 2019, a oedd i gael ei gynnal yn 2019, wedi'i ohirio am nifer o resymau a oedd yn cynnwys COVID-19 ac nid yw penderfyniad Corfforaethol wedi'i wneud eto ynghylch a fydd yr arolwg yn parhau. |
| 11 | Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol. | | Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn tanysgrifio i wasanaeth Arolwg Defnyddwyr Llyfrgelloedd Cyhoeddus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ac yn cynnal holiaduron ar wahân i Oedolion, Plant a Phobl Ifanc bob yn ail flwyddyn. Digwyddodd yr Arolwg Oedolion diweddaraf ym mis Mai 2019 ac mae disgwyl i'r Arolwg Plant a Phobl Ifanc digwydd ym mis Hydref 2020 (yn amodol ar ailagor ein hadeiladau i'r cyhoedd oherwydd COVID-19). Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol yn cael ei gynnwys yn Arolwg Cartrefi'r Awdurdod Lleol bob yn ail flwyddyn. Fodd bynnag, mae wedi dod i'm sylw fod Arolwg Cartrefi Corfforaethol 2019, a oedd wedi'i gynllunio i ddigwydd yn 2019, wedi'i gohirio am nifer o resymau a oedd yn cynnwys COVID-19 ac nid yw penderfyniad Corfforaethol wedi'i wneud eto ynghylch a fydd yr arolwg yn parhau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12 | Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned. | | Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhoi mynediad i drigolion at ei Gynllun Strategol 2017-2020 ar-lein yn https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Strategies,-plans-and-policies/Libraries?lang=cy-gb. |